Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar gyfer

# Cewri Bach

**Ysgol y Cribarth**
**Heol yr Ysgol**
**Abercraf**
**Abertawe**
**SA9 1XD**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Cewri Bach

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cewri Bach |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n gymwys) | Simon Hosking |
| Person â chyfrifoldeb | Claire Parsons |
| Nifer y lleoedd | 36 |
| Ystod oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 21 |
| Nifer y plant sy'n cael cyllid ar gyfer addysg gynnar | 21 |
| Diwrnodau / amseroedd gweithredu | Dydd Llun i ddydd Gwener 9:00- 15:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn darparu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth hwn yn gwneud ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru neu'n gweithio tuag at fod yn wasanaeth dwyieithog. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 21/06/17 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Medi 2017 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 12/11/2024 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
| --- | --- |
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Rhagorol** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol)** | **Rhagorol** |
| **Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Achosion o ddiffyg cydymffurfio

**Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Atgyfnerthu'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant: Rhagorol**

Mae'r plant yn hapus iawn yn y lleoliad. Maent yn setlo'n gyflym wrth gyrraedd ac yn awyddus i ddechrau chwarae a dysgu. Mae pob un o'r plant yn cael cyfleoedd rhagorol i wneud dewisiadau a phenderfyniadau ynglŷn â sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad, gan gynnwys dewis a ydynt am chwarae dan do neu yn yr awyr agored. Maent yn dewis yr adnoddau y maent am chwarae â nhw a'r gweithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt ac yn penderfynu pryd y maent am gael byrbryd. Mae bron pob un o'r plant yn mynegi eu hunain yn hyderus gan eu bod yn gwybod y bydd y staff yn gwrando ar eu hanghenion a'u dewisiadau. Maent yn gwneud ffrindiau ac yn awyddus i helpu ei gilydd. Er enghraifft, maent yn helpu eu ffrindiau i agor iogwrt yn ystod amser byrbryd ac yn atgoffa ei gilydd o'r rheolau diogelwch, gan ddangos ymwybyddiaeth o anghenion y plant eraill. Maent yn gwneud yn siŵr bod pawb yn iawn yn rheolaidd ac yn canmol eu cyflawniadau drwy ddweud ‘da iawn’.

Mae'r plant yn mwynhau mynychu'r lleoliad yn fawr ac maent yn gyfarwydd â’r drefn o ddydd i ddydd a'r ffiniau. Mae hyn yn eu helpu i deimlo'n ddiogel ac i ddatblygu ymdeimlad o berthyn. Er enghraifft, maent yn awyddus i helpu i osod y bwrdd ar gyfer amser byrbryd ac yn gwybod bod yn rhaid iddynt olchi eu dwylo'n gyntaf a pharatoi'r ardal. Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau cynnes ac agos â'r ymarferwyr a chânt gymorth a chysur os bydd angen. Er enghraifft, pan oedd plentyn yn teimlo'n ofidus, rhoddwyd maldod, amser a sicrwydd iddo er mwyn iddo allu setlo. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn dangos balchder yn yr hyn y gallant ei wneud, er enghraifft wrth ddangos y siapiau roeddent wedi'u gwneud gyda'r stampiau yn y dail. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hunanhyder a'u llesiant ac yn rhoi ymdeimlad o falchder iddynt.

Mae'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn derbyn pan fydd yr ymarferwyr yn eu hatgoffa'n garedig i gymryd eu tro. Mae llawer o'r plant yn mwynhau chwarae gyda'i

gilydd ac maent yn gwneud ffrindiau, wrth i blant eraill chwarae ochr yn ochr â nhw fel sy'n briodol ar gyfer eu camau datblygu. Gall bron pob un o'r plant oresgyn eu rhwystredigaeth wrth wynebu problemau, a hynny weithiau drwy gael cymorth gan yr oedolion. Er enghraifft, pan nad oedd plentyn yn hapus ei fod yn ei chael hi'n anodd uno eitemau i greu adenydd tylwyth teg, cafodd gymorth gan oedolyn a llwyddodd i ymdawelu a pharhau â'r gweithgaredd, gan ddatrys y broblem yn fedrus.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddweud sut maent yn teimlo ac i siarad am y teimladau hynny. Er enghraifft, clywsom y plant yn siarad am sut roeddent yn teimlo wrth gwblhau'r gweithgaredd dawnsio. Nododd un ei fod wedi cael llawer o hwyl. Roedd y plant yn fwy na pharod i drafod eu teimladau â'r staff wrth iddynt sgwrsio drwy gydol y sesiwn. Mae hyn yn helpu'r plant i fagu hyder wrth siarad am eu teimladau. At hynny, mae adnoddau ar gael yn hawdd sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ofalgar ac sy'n helpu i dawelu'r plant, er enghraifft teganau ffidlan, amserwyr tywod, peli synhwyraidd, cardiau ioga/ymwybyddiaeth ofalgar. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn deall yr angen i ddilyn rheolau a pharchu pobl eraill, ac roedd llawer ohonynt yn dweud 'plîs', 'diolch' a 'sori' yn ddigymell. Maent yn eithriadol o ystyriol tuag at eraill ac yn atgoffa ei gilydd i ddefnyddio sbectolau diogelwch yn yr ardal gwaith pren neu ffedog wrth baentio.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn egnïol ac yn ymddiddori yn eu chwarae. Maent yn archwilio eu hamgylchedd yn frwdfrydig ac yn dangos pwrpas, chwilfrydedd a dychymyg wrth iddynt ddewis eu gweithgareddau. Mae bron pob un o'r plant yn dangos dyfalbarhad a diddordeb. Er enghraifft, roedd plant yn treulio cryn dipyn o amser yn creu melin wynt yn yr ardal gwaith pren ac roedd grŵp o blant yn gweithio'n galed gyda'i gilydd i greu trac trên. Mae'r plant yr un mor frwdfrydig wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau dan arweiniad yr oedolion, fel cerddoriaeth a symudiadau.

Mae bron pob un o'r plant yn meithrin sgiliau a gwybodaeth ac yn gwneud cynnydd sylweddol drwy chwarae. Maent yn datblygu eu syniadau drwy ddilyn eu diddordebau eu hunain am rannau helaeth o'r dydd. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i feithrin eu sgiliau hunangymorth. Er enghraifft, mae'r plant yn defnyddio arian i brynu eu ffrwythau eu hunain yn ystod amser byrbryd. Maent yn paratoi ac yn torri eu byrbrydau ac yn tacluso wedyn. Gallant ddewis beth i'w wneud yn ystod y sesiwn ac maent yn gwisgo dillad priodol i fynd allan i chwarae. Mae hyn yn eu helpu i feithrin eu hannibyniaeth a'u sgiliau hunangymorth.

**Dysgu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Rhagorol**

Mae bron pob un o'r plant, gan gynnwys y rhai hynny ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd rhagorol o'u mannau cychwyn, yn enwedig o ran eu sgiliau corfforol a'u sgiliau cyfathrebu.

Mae bron pob un o'r plant yn rhannu eu syniadau yn hyderus ac yn rhoi rhesymau dros eu penderfyniadau. Er enghraifft, maent yn trafod y rhesymau dros greu eitemau gan ddefnyddio toes chwarae i'w rhoi ar y ddol, fel masg gan fod y ddol yn sâl. Maent yn meithrin cydberthnasau cymdeithasol rhagorol â'u cyfoedion a gydag oedolion. Mae bron pob un o'r plant yn cymryd eu tro ac mae eu hymddygiad yn eithriadol o dda, sy'n arwain at amgylchedd hamddenol ac effeithlon lle mae pawb yn brysur yn dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn canolbwyntio'n dda iawn a hynny y tu hwnt i'r disgwyliadau er mwyn cwblhau gweithgaredd o'u dewis ac maent yn defnyddio iaith briodol i drafod yr hyn y maent wedi'i ddysgu. Mae llawer o'r plant yn chwarae ochr yn ochr â'i gilydd, gan ryngweithio'n bwrpasol a chysylltu eu dysgu â'r byd o'u cwmpas yn aml. Er enghraifft, maent yn trafod pa mor debyg yw sgert y ddol i'w gwisg ysgol wrth chwarae gyda'r tŷ dol. Mae llawer o'r plant yn fwy na pharod i gyfathrebu â'r oedolion ac maent yn awyddus i gael sicrwydd ac arweiniad ganddynt. Maent yn cymryd risgiau yn hyderus ac yn dyfalbarhau i ddatrys problemau, a hynny heb lawer o arweiniad gan yr oedolion, os o gwbl. Maent yn symud yn rhydd o un ardal i'r llall, dan do ac yn yr awyr agored, gan ddangos eu bod yn gyfarwydd â'r amgylchedd dysgu.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn meithrin sgiliau gwneud marciau priodol ac yn dangos bod ystyr i'r marciau hynny. Er enghraifft, mae'r plant yn llunio cynllun i ddangos sut y byddant yn gosod yr adenydd tylwyth teg roeddent newydd eu creu o ddail ar eu tegan gartref. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mwynhau edrych ar lyfrau ac maent yn eu trin yn briodol, gan ddangos diddordeb yn y lluniau drwy bwyntio a siarad am y stori a'r cymeriadau.

Mae bron pob un o'r plant yn canolbwyntio ac yn ymateb yn frwdfrydig i sesiynau byr dan arweiniad yr oedolion. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymuno wrth ganu caneuon Cymraeg ac yn dechrau ymateb i gwestiynau a chyfarwyddiadau syml yn hyderus. Mae llawer ohonynt yn deall geiriau ac ymadroddion Cymraeg sylfaenol ac yn dangos diddordeb wrth ddysgu geiriau newydd. Er enghraifft, maent yn dewis gwrando ar stori am blant yn chwarae yn Gymraeg.

Mae llawer o'r plant yn dangos dealltwriaeth neilltuol o gysyniadau mathemategol wrth chwarae ac archwilio, fel creu patrymau yn y dail. Maent yn defnyddio geirfa briodol fel 'llawn', 'gwag', 'mwy' neu 'llai' wrth drafod faint o hylif lliw y mae angen iddynt ei arllwys a'i gymysgu i greu lliwiau newydd.

Mae llawer o'r plant yn meithrin eu sgiliau creadigol yn llwyddiannus wrth gadw rhythm â'r offerynnau cerdd yn ystod sesiynau canu. Maent yn gwrando'n dda iawn ar gyfarwyddiadau a gallant rewi pan ofynnir iddynt wneud hynny wrth chwarae gêm, cyn ailddechrau chwarae. Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio ac yn rhannu deunyddiau'n briodol wrth wneud pastai pwmpen yn y gegin yn yr awyr agored.

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd rhagorol mewn perthynas â sgiliau echddygol manwl wrth wau careiau i mewn ac allan o dyllau i greu llun o fochyn a defnyddio llwyau i gymysgu a jygiau i arllwys. Mae llawer o'r plant yn meithrin sgiliau echddygol bras yn yr ardal chwarae a symud gan ddefnyddio rhwystrau i gydbwyso, dringo, troi a dawnsio. Er enghraifft, mae'r plant yn cymryd eu tro i ddringo ysgol ac yn troi ar y gamfa dro yn hyderus.

## Gofal a datblygiad: Rhagorol

Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus â'r arweinwyr i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn meddu ar wybodaeth gadarn am sut i amddiffyn plant ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon.

Mae'r ymarferwyr yn dilyn systemau effeithiol ar gyfer cofnodi, monitro a rhoi gwybod am unrhyw faterion. Maent yn cwblhau'r holl gofnodion perthnasol mewn perthynas â damweiniau, digwyddiadau, anafiadau sy'n bodoli eisoes a meddyginiaeth yn briodol.

Mae pob ymarferydd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig addas. Maent yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng gan eu bod yn cynnal ymarferion tân ac yn eu cofnodi. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae'r ymarferwyr yn rhoi trefniadau buddiol ar waith i gadw'r plant yn iach. Maent yn dilyn gweithdrefnau hylendid da mewn perthynas â gweini bwyd a newid cewynnau. Maent yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo ar ôl defnyddio'r toiled a chyn bwyta. Mae hyn yn helpu'r plant i ddatblygu ymwybyddiaeth dda o arferion hylendid personol. Mae'r ymarferwyr yn llwyddo i annog y plant i fod yn gorfforol egnïol ac yn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd rheolaidd i chwarae allan yn yr awyr iach.

Mae'r ymarferwyr yn garedig, yn ofalgar ac yn gefnogol. Maent yn rhyngweithio â'r plant mewn ffordd gynnes a chyfeillgar, gan greu amgylchedd cadarnhaol, hamddenol a hapus. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn effeithiol. Maent yn cydnabod teimladau'r plant ac yn cynnig esboniadau a datrysiadau eraill er mwyn rheoli mân anghydfodau. Mae'r ymarferwyr yn siarad yn barchus â'i gilydd a gyda'r plant ac maent yn fodelau rôl rhagorol. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at awyrgylch sy'n meithrin ac yn hyrwyddo hunan-barch y plant.

Mae'r ymarferwyr yn diwallu anghenion y plant yn llwyddiannus. Maent yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd a gweithgareddau dan do ac yn yr awyr agored sy'n hyrwyddo dysgu a datblygiad y plant. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio rhai gweithgareddau ac ardaloedd chwarae yn seiliedig ar themâu a gaiff eu datblygu yn dibynnu ar ddiddordebau'r plant. Mae'r ymarferwyr yn ymgysylltu'n dda iawn â'r plant ac yn ehangu eu cyfleoedd chwarae yn llwyddiannus. Maent yn ymatebol iawn i anghenion y plant heb darfu'n ormodol arnynt. Maent yn sicrhau bod gan y plant ddigon o amser i archwilio'r adnoddau ac arwain eu chwarae a'u dysgu eu hunain.

Mae'r ymarferwyr yn arsylwi ar y plant, yn olrhain eu datblygiad yn effeithiol ac yn ymwybodol o blant y gall fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae ganddynt systemau da ar waith i sicrhau bod y plant yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt ac maent yn datblygu eu gwybodaeth a'u harbenigedd yn y maes hwn yn barhaus.

Mae gan yr ymarferwyr ffordd effeithiol o gofnodi arsylwadau a chamau nesaf y plant, sy'n cynnwys mewnbwn gan y rhieni. Maent yn sicrhau bod cynllun unigol ar waith i bob plentyn sy'n cynnwys targedau unigol ac ystyrlon, ac mae hyn yn annog datblygiad cyfannol yn unol â'r cwricwlwm newydd.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau go iawn yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd dysgu. Er enghraifft, defnyddio llestri a phasta yn yr ardal gartref. Mae'r ymarferwyr yn gwrando ar y plant, yn ymateb i'w diddordebau ac yn addasu eu dysgu yn unol â hynny. Er enghraifft, aethant ati i greu byd bach gan ddefnyddio pryfed ac ymlusgiaid yn seiliedig ar ddiddordeb un o'r plant – neidr newydd fel anifail anwes.

Mae'r ymarferwyr yn effeithiol wrth helpu'r plant pan fyddant wedi'u llethu neu'n teimlo'n ofidus. Er enghraifft, maent yn tawelu'r plant drwy eu hannog i anadlu'n ddwfn a gofyn iddynt sut y gellid datrys y broblem, gan weithio gyda'r plentyn bob amser i sicrhau datrysiad boddhaol. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio propiau yn llwyddiannus i wneud i'r plant wenu a theimlo'n gyfforddus, er enghraifft, drwy ddefnyddio pypedau.

**Addysgu ac asesu (dim ond i blant tair a phedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir y mae hyn yn berthnasol): Rhagorol**

Mae'r ymarferwyr wedi datblygu amgylchedd magwrus lle caiff pob plentyn ei werthfawrogi a'i annog i archwilio, rhoi cynnig arni a datrys problemau. Mae ganddynt ddealltwriaeth ragorol o ddatblygiad plant a'r ffordd y mae plant yn dysgu. Un agwedd hynod effeithiol o'r ddarpariaeth yw'r ffordd y mae'r ymarferwyr yn gofyn cwestiynau ac yn rhoi arweiniad i'r plant yn hytrach na darparu datrysiadau ac atebion. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol er mwyn ymateb i ddiddordebau'r plant ac annog eu chwilfrydedd a'u hawydd i archwilio. Er enghraifft, roedd yr ymarferwyr yn chwarae rôl gan esgus bod y babi dol yn crio er mwyn ysgogi chwilfrydedd y plant a'u hannog i ystyried pam fod y baban yn crio.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerth chweil i'r plant ddefnyddio'r Gymraeg wrth gwblhau'r gofrestr ac ymweld â'r siop fach. Maent yn fodelau rôl cadarnhaol ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg, ac yn annog y plant mewn ffordd ragweithiol i ailadrodd ymadroddion wrth brynu byrbrydau o'r siop fach. Maent yn manteisio ar bob cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg ac yn annog y plant i ddefnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg, er enghraifft, wrth gwblhau'r gofrestr yn y bore ac wrth brynu byrbrydau o'r siop fach. Mae digon o gyfleoedd i'r plant ganu caneuon Cymraeg ac ymuno wrth ganu hwiangerddi Cymraeg. Caiff tystysgrifau siaradwr Cymraeg yr wythnos eu cyflwyno er mwyn atgyfnerthu'r iaith a'i hannog.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn arwain eu dysgu yn unol â'u hanghenion. Maent yn chwarae ochr yn ochr â'r plant; maent yn modelu ymddygiadau yn dda iawn a dim ond pan fo angen er mwyn gwella dysgu'r plant y byddant yn tarfu ar eu chwarae. Maent yn cynllunio profiadau gwerthfawr yn seiliedig ar ddiddordebau'r plant, fel creu byd bach gan ddefnyddio pryfed ac ymlusgiaid. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod adnoddau diddorol, sy'n aml yn adnoddau go iawn, ar gael i'r plant, fel llestri, cloriannau, tapiau mesur a morthwylion. Maent yn dangos sut y dylid defnyddio'r cyfarpar hwn yn ofalus er mwyn sicrhau bod y plant yn ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n datblygu eu cywirdeb a'u bwriad.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio trefniadau asesu pwrpasol er mwyn helpu i gynllunio amrywiaeth eang o weithgareddau ysgogol i annog y plant i ddysgu dan do ac yn yr awyr agored. Maent yn arsylwi'n fanwl ar y plant yn dysgu, sy'n llywio'r broses o gynllunio ar gyfer y dyfodol yn dda. Mae'r ymarferwyr yn gweithio fel tîm i wella'r ardaloedd dysgu yn fedrus, yn unol ag anghenion a diddordebau'r plant. O ganlyniad, mae'r plant yn ffynnu ac yn datblygu.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd ystyrlon ei feithrin sgiliau llythrennedd, sgiliau rhifedd a sgiliau corfforol y plant. Caiff y plant eu hannog i gymryd risgiau a gwneud penderfyniadau am eu dysgu. Er enghraifft, mae'r plant yn defnyddio deunyddiau ac offer go iawn yn yr ardal gwaith pren, fel morthwylion a hoelion.

Mae'r ymarferwyr yn darparu amrywiaeth o brofiadau dysgu gwerthfawr sy'n hybu datblygiad cymdeithasol a moesol y plant yn dda. Er enghraifft, mae'r plant yn cymryd rhan yng Ngwasanaeth Cofio yr ysgol ac yn defnyddio toes chwarae a phaent i greu pabïau. Mae'r ymarferwyr yn meithrin ymdeimlad o berthyn ac yn dathlu amrywiaeth mewn teuluoedd, er enghraifft, drwy annog y plant i dynnu lluniau o'u teuluoedd a gaiff eu harddangos yn yr ardal dawel. Fodd bynnag, nid oes digon o adnoddau na chyfleoedd i hyrwyddo amrywiaeth ehangach o gefndiroedd diwylliannol.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod cydbwysedd effeithiol o weithgareddau ar gael dan do ac yn yr awyr agored, gan adael i'r plant ddewis ble a sut yr hoffent chwarae.

**Yr Amgylchedd: Rhagorol**

Mae'r arweinwyr a'r darparwyr yn darparu amgylchedd cyfoethog i'r plant sy'n cefnogi eu dysgu a'u datblygiad yn effeithiol. Maent yn sicrhau eu bod yn gofalu am y plant ar safle diogel. Mae gan yr arweinwyr systemau trylwyr ar waith i'r ymarferwyr reoli pwy sy'n cyrraedd ac yn gadael y lleoliad yn ddiogel. Mae'r arweinwyr yn cwblhau amrywiaeth o asesiadau risg ysgrifenedig sy'n lleihau risgiau yn effeithiol. Maent yn adolygu'r rhain yn rheolaidd ac yn cwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol o'r amgylchedd yn gyson. Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn goruchwylio'r gwiriadau diogelwch gofynnol o'r safle. Mae pob rhan o'r amgylchedd, y dodrefn a'r adnoddau yn eithriadol o lân ac mewn cyflwr da.

Mae'r lleoliad yn gweithredu o ddwy ystafell chwarae sy'n olau ac yn groesawgar. Mae'r ymarferwyr wedi datblygu amgylchedd galluogol iawn sy'n cynnwys ardaloedd dysgu penodol wedi'u trefnu'n effeithiol sy'n gwahodd y plant i chwarae. Mae digon o le i'r plant symud o gwmpas a chwarae. Mae'r cynwysyddion storio, fel basgedi naturiol, yn galluogi'r plant i gael gafael ar y teganau a'r adnoddau a'u harchwilio'n annibynnol. Mae'r arddangosfeydd ar y waliau yn dathlu gwaith celf unigol y plant a'u cymunedau. O ganlyniad, mae'r plant yn teimlo ymdeimlad o berthyn.

Mae'r plant yn cael budd o ardaloedd chwarae mawr yn yr awyr agored. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr wedi datblygu'r ardaloedd hyn er mwyn darparu cyfleoedd rhagorol pellach i chwarae a dysgu. Er enghraifft, mae gan y plant le i redeg, dringo neu reidio beiciau, adeiladu a thyfu pethau. Gellir cyrraedd yr ardal hon yn uniongyrchol o'r ddwy ystafell chwarae ac mae'n gwbl ddiogel.

Mae'r arweinwyr yn darparu dodrefn o ansawdd da sy'n addas ar gyfer oedran y plant. Maent yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau a chyfarpar diddorol sy'n briodol o ran datblygiad y plant. Mae digon o ddeunyddiau ac adnoddau naturiol ar gael y gall y plant eu defnyddio mewn gwahanol ffyrdd. Mae adnoddau go iawn, fel cwpanau Tsieina yn y gornel gartref, yn helpu'r plant i ddysgu sut i ofalu am bethau, eu trin â pharch a defnyddio eitemau yn ddiogel. Mae'r llyfrau a'r lluniau ym mhob rhan o'r ystafell chwarae yn cefnogi dysgu'r plant. Er enghraifft, rhoddodd yr ymarferwyr lyfrau am y lindysyn llwglyd gyda'r adnoddau perthnasol a oedd yn cyd-fynd â'r stori.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae'r arweinwyr wedi datblygu ethos cefnogol, hamddenol a magwrus. Maent yn arwain drwy esiampl ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw eu hunain, yr ymarferwyr a'r plant. Mae'r arweinwyr wedi llunio datganiad o ddiben sy'n rhoi disgrifiad cywir o'r ddarpariaeth. Mae ganddynt amrywiaeth eang o bolisïau, gweithdrefnau ac asesiadau risg cadarn sy'n helpu'r ymarferwyr i gyflawni eu gwaith yn effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad a gaiff ei hadlewyrchu yn eu harwyddair *'Our adventure begins with "Yes I Can"'*. Mae'r lleoliad yn cynnig amgylchedd ysgogol lle mae'r plant yn barod i roi cynnig ar bopeth. O ganlyniad, mae'r plant yn ffynnu ac yn dysgu a datblygu yn llwyddiannus. Mae'r arweinwyr yn creu ac yn cynnal etheg tîm eithriadol lle mae'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn gosod disgwyliadau clir a gaiff eu rhannu â phob ymarferydd er mwyn sicrhau y caiff anghenion pob plentyn eu diwallu'n effeithiol o ddydd i ddydd.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn gweithio gyda'i gilydd yn hynod effeithlon i gynllunio a gwerthuso'r ddarpariaeth. Mae hyn yn eu helpu i ddarparu amrywiaeth o brofiadau rhagorol lle gall y plant archwilio, datrys problemau a bod yn chwilfrydig. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn cyfathrebu'n effeithiol i gefnogi gofal a datblygiad y plant ym mhob rhan o'r lleoliad. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd y plant.

Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig i wella'r lleoliad ac yn cefnogi ymdrechion gan yr ymarferwyr i ddatblygu'n broffesiynol. Mae llesiant wrth wraidd popeth a wnânt. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod prosesau recriwtio diogel ar waith, yn unol â'r rheoliadau. Maent yn cwblhau arfarniadau ffurfiol ac yn gosod targedau realistig sy'n gysylltiedig â chynllun datblygu'r lleoliad a datblygiad personol. Mae'r arweinwyr yn gwerthuso pob agwedd ar y lleoliad, gan nodi meysydd i'w datblygu a gwneud cynlluniau addas er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd hyn. Er enghraifft, mae bron pob un o'r ymarferwyr wedi cwblhau cwrs Cymraeg yn llwyddiannus ac yn defnyddio'r hyn y maent wedi'i ddysgu i lywio eu hymarfer o ddydd i ddydd. Mae'r ymarferwyr yn gyfarwydd â blaenoriaethau'r lleoliad ac maent yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn hyderus.

Mae'r arweinwyr yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol â'r rhieni a'r gofalwyr ar y cyfryngau cymdeithasol, drwy gylchlythyr bob tymor ac ar lwyfannau digidol. Maent yn rhannu gwybodaeth werthfawr am gynnydd y plant, yn anffurfiol ac yn ffurfiol. Mae'r rhieni a'r gofalwyr yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt ac maent yn fodlon bod eu plant yn ddiogel, yn hapus ac yn gwneud cynnydd da. Mae'r arweinwyr yn cynnal sesiynau gwerth chweil â'r rhieni a'r gofalwyr i gefnogi dysgu eu plant, fel sesiynau coginio pitsas a diwrnodau chwarae. Maent wedi datblygu trefniadau trosglwyddo cadarn er mwyn sicrhau bod y plant a'u teuluoedd yn trosglwyddo'n ddidrafferth i addysg gynradd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa pedwar pwynt:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac ymarfer parhaus cryf iawn |
| **Da** | Llawer o gryfderau, heb unrhyw feysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae'r cryfderau yn gwrthbwyso'r gwendidau ond mae angen gwneud gwelliannau |
| **Gwael** | Mae gwendidau pwysig yn gwrthbwyso'r cryfderau ac mae angen gwneud gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (o'r Saesneg i'r Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, ar yr amod y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad.

Dyddiad cyhoeddi: 17/01/2025